PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# GWEITHIWR YMGYSYLLTU IEUENCTID SESIYNOL

**Pecyn Ymgeisio**

childreninwales.org.uk

# Cyflwyniad

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Gweithiwr Ymgysylltu Ieuenctid Sesiynol |
| **Yn adrodd i'r:** | Uwch Swyddog Cymru Ifanc |
| **Lleoliad:** | Wedi'i leoli yn y swyddfa yng Nghaerdydd ond yn allgymorth mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru (telir costau trafnidiaeth) |
| **Tal:** | £125 y dydd |

I gael sgwrs anffurfiol am y rôl cysylltwch â Tegan sy'n arwain ein Rhaglen Cymru Ifanc ar Tegan.waites@childreninwales.org.uk am sgwrs anffurfiol am y rôl.

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 9am dydd Llun 8 Gorffennaf 2024**

**Cynhelir cyfweliadau ddydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024 yn Swyddfa CiW, SPARK, Heol Maendy, Caerdydd, CF24 4HQ**

Rydyn ni'n ymroddedig i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac yn hybu cyfle cyfartal. Seiliwyd hynny ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a byddwn yn glynu at y drefn honno ym mhob cam o'r broses recriwtio.

Yn Plant yng Nghymru, gwyddom fod amrywiaeth yn meithrin creadigrwydd ac arloesedd. Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal, i fod yn deg ac yn gynhwysol, ac i fod yn lle y mae pawb yn perthyn iddo. Rydym felly'n annog yn arbennig geisiadau gan ymgeiswyr sy'n debygol o gael eu tangynrychioli yng ngweithlu Plant yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, nam neu gyflwr iechyd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred a phobl ifanc o dan 25 oed.

Ein panel recriwtio fydd yn llunio'r rhestr fer ar gyfer cyfweld. Fyddan nhw ddim yn gweld eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth cyfle cyfartal. Bydd yr wybodaeth a gafwyd gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn, ac yna'n cael ei dinistrio heb ei datgelu.

Er budd economi, dim ond trwy e-bost y gallwn gydnabod ein bod wedi derbyn eich cais.

Os llwyddwch i symud ymlaen i gyfweliad, cewch wybod trwy'r cyfeiriad e-bost a roddwyd i ni.

Lluniwyd yr wybodaeth amgaeedig i roi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd a gwybodaeth am Plant yng Nghymru.

Lluniwyd y disgrifiad swydd i grynhoi'n glir gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylid ei ddarllen yn drylwyr. Diben y fanyleb person yw nodi, mor fanwl gywir â phosibl, y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn i ymgeiswyr fedru bodloni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hyn yn ofalus ac yn rhoi sylw i'r meini prawf a geir yn y fanyleb person yn eich cais.** Os na wnewch hynny, bydd gennych lawer llai o gyfle o gael eich dewis ar gyfer cyfweliadRydyn ni'n ymroddedig i fod yn gorff gwrth-hiliol a chynyddu amrywiaeth trwy ddileu rhwystrau a chefnogi ein holl staff i gyflawni eu potensial. Rydyn ni'n ymroddedig i recriwtio pobl.

# Disgrifiad Swydd

**Teitl y Swydd:** Gweithiwr Ymgysylltu Ieunenctid Sesiynol

**Perthmasoedd:** Rheolir y rol hon gan Uwch Swyddog Cymru Ifanc

**Lleoliad:** Caerdydd – gweithio ystwyth o'ch cartref neu yn ein swyddfa

**Diben y rôl:** Cefnogi tîm Cymru Ifanc i gyflwyno eu rhaglen ymgysylltiad ieuenctid uchelgeisiol.

**Gwybodaeth am y rôl:**

Mae Cymru Ifanc, rhaglen ymgysylltiad ieuenctid flaenllaw Plant yng Nghymru, yn darparu nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar hyd y flwyddyn sy'n canolbwyntio ar ddinasyddiaeth weithredol a gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc 11 – 25 oed. Rôl newydd yw'r Gweithiwr Ymgysylltiad Ieuenctid Sesiynol, a fydd yn cefnogi tîm Cymru Ifanc yn ystod gweithgareddau ymgysylltu megis cyrsiau preswyl, gwyliau a sesiynau ymgynghori.

Bydd angen i ddeilydd y swydd allu gweithio'n hyblyg a meithrin perthnasoedd gwaith cadarn gyda phlant a phobl ifanc.

**Prif Gyfrifoldebau'r rôl**

- Darparu cymorth ymgysylltu mewn ystod o ddigwyddiadau a sesiynau a drefnir gan dîm Plant yng Nghymru.
- Meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau cyfranogiad ac ymgysylltiad gweithredol.
- Blaenoriaethu cynhwysiant, diogelu a sicrhau'r effaith ystyrlon fwyaf i'r cyfranogwyr bob amser.
- Dilyn y gweithdrefnau perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch seicolegol a chorfforol y cyfranogwyr, gan gynnwys asesiadau risg, y weithdrefn ddiogelu a gwaith dilynol/cofnodi gyda'r rheolwr llinell.
- Cyfrannu at gynnwys y negeseuon cyfathrebu a gyhoeddir gan Cymru Ifanc, gan gynnwys blogiau, erthyglau a'r cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.
- Cefnogi'r gwaith o gynllunio a threfnu gweithgareddau Cymru Ifanc cyn eu cyflwyno yn ogystal â chefnogaeth ar ôl ymgysylltu.
- Cyflawni amcanion a rhaglenni gwaith cytunedig yn unol â safonau Plant yng Nghymru.
- Ymgymryd â'ch gwaith gweinyddol eich hun.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill rhesymol ar gais Tîm Arweinwyr Uwch Plant yng Nghymru.

# Manyleb Bersonol

**Amdanoch chi:**

**Prif Ofynion - Hanfodol**

1. Gwybodaeth dda am ddulliau gweithredu a thechnegau ym maes cyfranogiad ac ymgysylltiad plant a phobl ifanc.
2. Sgiliau ardderchog o ran cydweithio a meithrin perthnasoedd.
3. Gwybodaeth am Hawliau Plant a'u cymhwysiad ymarferol.
4. Gwybodaeth dda a dealltwriaeth ymarferol o'r amgylchedd gwleidyddol yng Nghymru, gan gynnwys y Senedd, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol.
5. Gwybodaeth am Ddiogelu ar waith, gan gynnwys diogelu cyd-destunol a digidol, ac ymrwymiad i ddysgu a datblygu'n barhaus yn y maes hwn.
6. Sgiliau cadarn o ran ymwneud ag eraill a chyfathrebu (yn ysgrifenedig ac ar lafar) wrth gydweithredu â chydweithwyr a rhanddeiliaid allanol.
7. Gallu gweithio'n effeithiol mewn tîm, gan gydweithredu â chydweithwyr a rhanddeiliaid allanol.
8. Gallu cynrychioli Plant yng Nghymru gyda chynulleidfaoedd allanol.
9. Sgiliau trefnu effeithiol.
10. Gallu cynhyrchu ystod o adnoddau ysgrifenedig, gan gynnwys canllawiau arfer da a phecynnau offer ar gyfer cynulleidfaoedd allanol.
11. Gallu cadw at derfynau amser a chael eich ysgogi gan dargedau.
12. Hanes pendant o gyflawni prosiectau/rhaglenni.
13. Gallu i ymgysylltu â phartneriaid/rhanddeiliaid a'u hysgogi.
14. Gallu i reoli llwyth gwaith cymhleth ac amrywiol.

# Gwybodaeth Gefndir

Children in Wales – Plant yng Nghymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol o aelodau ar gyfer unigolion a sefydliadau o bob sector sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Daw ein haelodau o'r sectorau cyhoeddus, elusennol/nid-er-elw ac annibynnol. Bydd ein gwaith wedi'i seilio ar ddull cydweithredol, sy'n hwyluso cyfleoedd i'n haelodau, ac i blant a phobl ifanc.

Byddwn ni'n gweithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth ar y cyd â'n haelodau trwy wneud y canlynol:

- Ymgyrchu dros fabwysiadu a gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn ar bob lefel o'r gymdeithas yng Nghymru.
- Herio anghydraddoldeb a hybu tegwch i'r holl blant a phobl ifanc ledled Cymru.
- Cyfuno a chwyddo llais ar y cyd dros newid trawsffurfiannol ar lefel polisi yng Nghymru.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn strwythurau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r llywodraeth yng Nghymru.
- Darparu llwyfan ar gyfer rhannu ymarfer arloesol ledled Cymru.
- Eiriol o blaid y sector(au) plant mewn meysydd blaenoriaeth.
- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i'r gweithlu plant proffesiynol ar draws sectorau.
- Ymgymryd â gwaith ymchwil a'i ledaenu ymhlith ein haelodau.

Mae Plant yng Nghymru yn cyflawni nifer o weithgareddau er mwyn cyrraedd y nodau hyn. Yn eu plith mae:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw
- Gwaith ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc trwy ein prosiect Cymru Ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r cyrff cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae ganddo gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Fel corff o aelodau rydym ni'n sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, canfod pryderon cyffredin, ac annog gweithgaredd amlddisgyblaeth. Gall yr aelodau fod yn rhai corfforaethol neu unigol, a deuant o ystod eang o ddiddordebau, megis iechyd, addysg, sefydliadau gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol, neu grwpiau hunan-gymorth.

Ariannir ein gwaith trwy grantiau gan Lywodraeth Cymru, rhoddwyr grantiau eraill, ac incwm a gynhyrchwn ein hunain.

Llywodraethir gwaith y sefydliad gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr

http://www.childreninwales.org.uk/